# Cynaliadwyedd a gwydnwch sefydliadol – canllaw arfer da

29/01/2024

[See all updates]

Mae sefydliadau sy’n gynaliadwy ac yn wydn yn gallu addasu’n well i amgylchiadau newidiol a manteisio ar gyfleoedd newydd, gan arwain at fwy o effaith a gwaddol cryfach ar gyfer prosiectau treftadaeth.

Drwy ddarllen y canllaw hwn byddwch yn cael eich annog i feddwl am y ffactorau sy'n dylanwadu ar gynaliadwyedd eich sefydliad, beth sydd angen ei newid a'r hyn y gallech fod am ei gynnwys yn eich prosiect. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth ac adnoddau.

Mae cynaliadwyedd sefydliadol yn un o'r pedair egwyddor buddsoddi a fydd yn llywio ein holl benderfyniadau ynghylch rhoi grantiau o dan Treftadaeth 2033.

Mae sector sy’n ymaddasol ac sy’n wydn yn ariannol, gyda sgiliau a gallu digonol, yn helpu i annog buddsoddiad newydd mewn treftadaeth ac yn dod â buddion i gymunedau ac economïau.

Mae cynaliadwyedd sefydliadol yn rhan bwysig o wneud y dreftadaeth sydd wrth wraidd eich prosiect yn fwy gwydn. Mae'n galluogi sefydliadau i gyflawni mwy, i gynllunio ar gyfer newid ac i lywio newid yn hyderus.

## Sut i feddwl am gynaliadwyedd

Bydd cynaliadwyedd a gwydnwch yn edrych yn wahanol i wahanol sefydliadau yn dibynnu ar anghenion unigol a ffocws treftadaeth eich prosiect.

Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am y ffactorau sy'n dylanwadu ar gynaliadwyedd eich sefydliad er mwyn deall yn well yr elfennau perthnasol i'w blaenoriaethu ar gyfer eich prosiect.

Efallai y bydd angen i chi feithrin sgiliau neu wybodaeth newydd, archwilio modelau gweithredu neu lywodraethu newydd, ystyried cymorth gan ymgynghorwyr allanol neu adolygu eich dull o gynhyrchu incwm.

- **Cyllid a strategaeth**: adolygu a datblygu eich cynlluniau codi arian i amrywio ffynonellau incwm a chreu cynllun mwy hirdymor ar gyfer eich sefydliad, ymchwilio anghenion cynulleidfa a threftadaeth a dod â phobl ynghyd i ddatblygu strategaeth gliriach ar gyfer eich dyfodol.
- **Adnoddau dynol**: dadansoddi sgiliau, galluoedd a gallu'r bobl sydd eu hangen arnoch i wneud eich prosiect yn llwyddiant, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr a dibyniaethau allweddol megis unrhyw gyngor allanol arbenigol.
- **Systemau**: a oes gan eich sefydliad y dull llywodraethu a gwneud penderfyniadau sydd ei angen i wneud y gorau o'ch prosiect? A allwch chi reoli, arwain a chyfathrebu'n effeithiol i gyflawni'r effaith a ddymunir gennych?
- **Amgylchedd adeiledig a seilwaith**: a yw'r seilwaith ffisegol a digidol sydd ei angen ar gyfer eich prosiect yn gadarn ac yn addas ar gyfer y dyfodol? Yn ogystal â ffocws treftadaeth eich prosiect, efallai y byddwch yn ystyried pethau sy'n hanfodol ar gyfer gallu eich sefydliad a chynulleidfaoedd i ymgysylltu, megis trafnidiaeth, ynni a'r cadwyni cyflenwi y mae eich sefydliad yn dibynnu arnynt.

- **Rhwydweithiau cymdeithasol**: beth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod gennych y rhwydweithiau, cyfathrebu ac ymddiriedaeth gyda'ch cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid i wneud eich prosiect yn llwyddiant? A fydd eich prosiect yn gofyn am ffurfio a rheoli perthnasoedd newydd?
- **Rhwydweithiau proffesiynol**: mae datblygu rhwydweithiau, partneriaethau neu strategaethau cydweithredu eraill gyda sefydliadau cymheiriaid sydd â nodau a heriau tebyg yn galluogi rhannu arbenigedd ac adnoddau.
- **Yr amgylchedd**: sut y gall eich prosiect leihau effaith amgylcheddol negyddol a chefnogi eich treftadaeth i addasu i'r argyfwng hinsawdd?

Gyda dealltwriaeth o sefyllfa bresennol eich sefydliad – eich cryfderau a'ch gwendidau – a sut y mae wedi datblygu, byddwch mewn sefyllfa dda i gynllunio sut y gallwch wella cynaliadwyedd eich sefydliad drwy eich prosiect.

# Ysbrydoliaeth

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi enghreifftiau bras o'r math o waith datblygu a allai fod yn berthnasol i'ch sefydliad. Nid yw'n rhestr gyflawn o'r hyn y gallwn ei ariannu – ei nod yw rhoi ysbrydoliaeth i chi i feddwl am yr hyn a allai fod yn briodol ar gyfer eich amgylchiadau:

- Ennill adnoddau, sgiliau a gallu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yng ngwydnwch a chynaliadwyedd eich sefydliad.
- Bwrw ymlaen â chamau cynnar datblygiad prosiect, gan gynnwys gwerthusiadau opsiynau, astudiaethau dichonoldeb ac ymgynghori.
- Ymgymryd â datblygiad sefydliadol fel rhan o brosiect â phwrpas ehangach i wneud y mwyaf o effaith a chynaliadwyedd y prosiect hwnnw.
- Archwilio a sefydlu cefnogaeth gan gonsortia a chymheiriaid o fewn gr?p o sefydliadau sydd â heriau cyffredin a nodwyd, a allai gynnwys rhwydweithiau, partneriaethau a strategaethau newydd i gydweithio.
- Cynyddu sgiliau a gallu sefydliadau sy'n berchen ar safleoedd ac asedau treftadaeth ac yn eu rheoli.

Mae ein strategaeth Treftadaeth 2033 yn seiliedig ar fframwaith hyblyg o egwyddorion buddsoddi sydd wedi'u cynllunio i'ch galluogi i ddatblygu prosiectau gyda ffocws sy'n addas ar gyfer eich sefydliad a'ch treftadaeth. Rydym yn argymell eich bod yn trafod eich amgylchiadau unigol gyda'ch tîm Cronfa Treftadaeth leol cyn gwneud cais.

# Rhagor o wybodaeth ac adnoddau

## Cynlluniau busnes

Mae ein canllaw – arfer da cynllun busnes yn mynd â chi drwy ddatblygu ac ysgrifennu cynllun busnes ar gyfer eich prosiect gam wrth gam.

## Sgiliau digidol

Archwiliwch yr adnoddau a gynhyrchwyd trwy ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth a all helpu sefydliadau treftadaeth i gael y gorau o ddigidol a deall y sylfeini ar gyfer gweithio ar-lein, o ddiogeledd a diogelwch i hygyrchedd a deallusrwydd artiffisial.

Er mwyn cynyddu effaith a chyrhaeddiad eich prosiect, mae angen i unrhyw allbynnau digidol a gynhyrchwch fod ar gael, yn hygyrch ac yn agored. Dysgwch fwy am drwyddedu agored yn ein canllaw arfer da digidol.

### Strategaeth a chynllunio:

- Canllawiau NCVO ar strategaeth a chynllunio busnes
- Pecyn Cymorth DIY Nesta ar sut i ddyfeisio, mabwysiadu neu addasu syniadau sy'n sicrhau canlyniadau gwell
- Canllaw cynllunio busnes Cyngor Celfyddydau Lloegr ar gyfer sefydliadau celfyddydol a diwylliannol
- Adnoddau cynllunio busnes gan Gyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban

### Cymorth datblygu busnes:

- Adnoddau Rebuilding Heritage ar bynciau gan gynnwys codi arian, cyfathrebu a datblygu busnes
- Adnoddau datblygu busnes gan Culture Hive (a gynhelir gan Arts Marketing Association) yn ymdrin â phynciau gan gynnwys rheoli timau trwy newid, mesur effaith gymdeithasol ac arallgyfeirio ffrydiau refeniw
- Mae canllawiau llwyddiant AIM ar gyfer amgueddfeydd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys caffis a manwerthu, trafod ardrethi busnes a blychau rhoddion

### Codi arian:

- Cod ymarfer codi arian y Rheoleiddiwr Codi Arian
- Safonau ac egwyddorion moesegol Cymdeithas y Gweithwyr Proffesiynol Codi Arian
- Adnoddau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon i helpu gyda chodi arian
- Syniadau da a sut i godi arian

### Llywodraethu:

- Rheolau aur AIM ar gyfer llywodraethu da i fyrddau ymddiriedolwyr
- Y Cod Llywodraethu Elusennau
- Pecynnau cymorth a chanllawiau gan Fforwm Llywodraethu Trydydd Sector yr Alban

### Buddsoddiad cymdeithasol:

- Mae Good Finance yn helpu elusennau i ddeall buddsoddiad cymdeithasol yn well
- Archwiliwch offeryn parodrwydd buddsoddi Social Investment Scotland